



British Heart  
Foundation  
Cymru

# Taflên Ffeithiau ar Sgrinio'r Galón



[bhf.org.uk](http://bhf.org.uk)

# Beth yw sgrinio'r galon?

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) yn esbonio mai proses o ddewis pobl iach er mwyn asesu a oes ganddynt gyflwr penodol yw sgrinio.<sup>1</sup> Felly, byddai sgrinio'r galon yn broses o ddewis pobl sy'n ymddangos yn iach er mwyn canfod a oes ganddynt gyflwr heb ei ddiagnosio ar y galon. Fodd bynnag, gyda'r dechnoleg gyfredol, nid yw hyn yn gwbl ddbynadwy eto ac nid yw sgrinio'r galon yn y boblogaeth gyffredinol yn cael ei argymhell yn unman yn y Deyrnas Unedig.

## Mae sgrinio'r galon yn rhy wallus

Pan fydd pobl yn marw'n sydyn o gyflwr ar y galon na wyddai neb ei fod arnynt, mae'n cael effaith ddifrifol ar deuluoedd a chymunedau. Felly, mae'n ddealladwy bod pobl yn credu bod sgrinio'n allweddol er mwyn osgoi trychinebau o'r fath. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw gwyddoniaeth sgrinio wedi cyrraedd lefel o gywirdeb lle gellir rhagweld yn fanwl yr holl bobl sydd mewn perygl o farw'n sydyn o gyflwr ar y galon. Yn ôl adroddiad gan UK NSC yn 2019 ar sgrinio am gyflyrau ar y galon, mae canllawiau yn bodoli ar gynnal profion genetig ar aelodau o deuluoedd pobl sydd mewn perygl o farw'n sydyn o gyflwr ar y galon. **Fodd bynnag, nid yw cyflyrau y credir eu bod yn gysylltiedig â marwolaeth gardiaidd sydyn yn bodloni'r maen prawf cyffredinrwydd a fyddai'n cyfiawnhau rhaglen i sgrinio'r boblogaeth am y cyflwr hwn.**<sup>2</sup>

**Yn 2016, canfu'r British Medical Journal (BMJ) y gallai sgrinio roi'r argraff, yn anghywir, bod clefyd y galon ar hyd at 5% o bobl iach rhwng 14 a 35 oed ond na fyddai 25% o'r bobl oedd â chyflwr ar y galon yn cael eu canfod.**<sup>3</sup>

Bu JAMA Internal Medicine yn astudio 6861 o gyfranogwyr canol oed i weld a yw sgrinio ecocardiograffig (eco) yn y boblogaeth gyffredinol yn gwella lefelau goroesi hirdymor neu'n lleihau'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad, yn y pen draw, nad oedd sgrinio'n lleihau'r risg o farw.<sup>4</sup>


Daeth Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i'r casgliad nad yw sawl dull arfaethedig o sgrinio am glefyd cardiofasgwlaidd, fel electrocardiograffeg (ECG), archwiliad corfforol, dadansoddi hanes teulu na chyfuniad o ddulliau, ar raddfa fawr yn y boblogaeth gyffredinol, yn cydymffurfio â'r meini prawf gweithredu a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer rhaglenni sgrinio.<sup>5</sup>


## Astudiaeth Achos: Risgiau sgrinio'r galon ymhlith athletwyr

Ymhlith athletwyr ifanc, ar hyn o bryd, nid yw sgrinio cardiofasgwlaidd arferol yn canfod y rhan fwyaf o'r cyflyrau sy'n achosi marwolaethau cardiaidd sydyn. Er y gall ecocardiogram (eco) neu electrocardiogram (ECG) ganfod arwyddion o risg isorweddol o farw'n sydyn, gall hyn fod yn anodd ei ddehongli, yn enwedig ymhlith athletwyr ifanc lle mae'r newidiadau ffisiolegol yn wahanol i bobl nad ydynt yn athletwyr.<sup>6</sup>

Er bod marwolaeth gardiaidd sydyn yn sicr yn drychineb, mae angen deall pa mor gyffredin yw'r cyflwr, sef un o'r ffactorau niferus a gaiff eu hystyried mewn canllawiau sgrinio. Yn ôl adroddiad gan y BMJ, allan o 115 o athletwyr a fu farw'n sydyn o gyflwr ar y galon ac a oedd wedi cael asesiad meddygol cyn cymryd rhan, dim ond 4 (3%) y tybiwyd y gallai fod clefyd y galon arnynt.<sup>7</sup>

Canfu astudiaeth 26 mlynedd ym Minnesota gan yr Heart Rhythm Society mai 13 achos o farwolaeth sydyn a gafwyd allan o tua 4.5 miliwn o athletwyr ac mai dim ond 4 o'r rhain y gellid eu priodoli i glefyd y gellid ei ganfod trwy sgrinio cyn cymryd rhan.<sup>8</sup>





## Nid yw'r UK NSC yn argymhell sgrinio'r galon

Caiff argymhellion yr UK NSC ynghylch priodoldeb sgrinio am gyflwr eu seilio ar feini prawf a gydnabyddir yn rhyngwladol a phroses drwyadl o adolygu tystiolaeth.<sup>12</sup>

Nid oedd adroddiad yr UK NSC yn 2014, *Screening for cardiac conditions associated with sudden cardiac death in the young*, yn argymhell sgrinio pobl o dan 40 oed gan ei fod yn dangos ansicrwydd ynghylch nifer y bobl yr effeithiwyd yn ddifrifol arnynt gan farwolaethau cardiaidd sydyn bob blwyddyn. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos bod sgrinio'n lleihau'r risg o farw'n sydyn o gyflwr ar y galon yn y boblogaeth gyffredinol ehangach.<sup>13</sup>

Yn 2019, bu'r UK NSC yn ystyried tystiolaeth newydd ac, unwaith eto, argymhellodd na ddylid sgrinio pobl i ganfod cyflyrau ar y galon. Mae'r adroddiad yn dangos hefyd nad yw profion o'r fath yn ddigon cywir eto i'w defnyddio ar bobl i leihau'r risg o farw'n sydyn o gyflwr ar y galon.

Mae'r adroddiad yn nodi hefyd nad yw'r American Heart Association na Chymdeithas Gardioleg Ewrop yn cefnogi sgrinio'r boblogaeth gyffredinol am y risg o farw'n sydyn o gyflwr ar y galon ar hyn o bryd.<sup>14</sup>

## Gall sgrinio'r galon arwain at ganlyniadau positif anghywir, gan ddifetha bywydau

Mae nifer y canlyniadau positif anghywir sy'n gysylltiedig â phroffion sgrinio fel yr ECG yn bryderus o uchel. Canfu adroddiad gan yr UK NSC yn 2019 y byddai sgrinio am gyflyrau'n gysylltiedig â marwolaethau cardiaidd sydyn yn golygu bod llawer o bobl yn cael eu hysbysu, ar gam, bod ganddynt broblem ar y galon.<sup>9</sup> Byddai hyn yn arwain yn y pen draw at ganlyniadau positif anghywir ar gyfer cyflyrau cardiaidd ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig.

Mae hyn yn wir mewn poblogaethau eraill hefyd. Yn ôl yr American Heart Association (AHA), nid yw achosion o farwolaethau cardiaidd sydyn yn gyffredin ym mhoblogaeth America ac felly byddai sgrinio'r galon yn cynhyrchu mwy o ganlyniadau positif anghywir nag o ganlyniadau positif cywir.<sup>10</sup>

Gall effeithiau camddiagnosis fod yn enfawr. Gall canlyniadau positif anghywir sy'n gysylltiedig â sgrinio'r galon arwain at broffion eilaidd, a allai olygu triniaeth feddygol ddiangen a thrawma seicolegol. Ymhlith y canlyniadau eraill mae llai o gyfleoedd ym myd gwaith, mwy o alw am wasanaethau eilaidd ac anhawster i gael yswiriant.<sup>11</sup>

## Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru barhau l ddilyn canllawiau'r UK NSC ar sgrinio'r galon. Mae'r UK NSC yn datgan ar hyn o bryd bod canllawiau ar gael ar gynnal profion genetig ar aelodau o deuluoedd pobl sydd mewn perygl o farwolaethau cardiaidd sydyn. Os caiff y canllawiau hyn eu gweithredu'n effeithiol trwy raglen sgrinio a dargedir, gallai helpu i atal farwolaethau cardiaidd sydyn mewn rhai grwpiau o bobl sy'n wynebu risg uchel.<sup>15</sup>



# Cyfeiriadau

1. UK NSC. (2022). *Evidence Review Process*. (gwefan) <https://www.gov.uk/government/publications/uk-nsc-evidence-review-process/uk-nsc-evidence-review-process>.
2. UK NSC. (2019). *Screening for cardiac conditions associated with sudden cardiac death in the young*. (pdf) <https://view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/sudden-cardiac-death/>.
3. Van Brabandt, H. Desomer, A. Gerkens, S. Neyt, M. (2016). *Harms and benefits of screening young people to prevent sudden cardiac death*. British Medical Journal. (gwefan) <https://www.bmj.com/content/353/bmj.i1156.long>.
4. Lindekleiv, H. et al. (2013). *Echocardiographic screening of the general population and long-term survival: a randomized clinical study*. JAMA internal medicine. (gwefan) <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/23877591/>.
5. UK NSC. (2022). *Criteria for a population screening criterion*. (gwefan) <https://www.gov.uk/government/publications/evidence-review-criteria-national-screening-programmes/criteria-for-appraising-the-viability-effectiveness-and-appropriateness-of-a-screening-programme#implementation-criteria>.
6. Sharma, S. (2013). *Cardiac Screening Before Participation in Sports*. New England Journal of Medicine. (gwefan) <https://www.nejm.org/doi/full/10.1056/NEJMclde1311642>.
7. Van Brabandt, H. Desomer, A. Gerkens, S. Neyt, M. (2016). *Harms and benefits of screening young people to prevent sudden cardiac death*. British Medical Journal. (gwefan) <https://www.bmj.com/content/353/bmj.i1156.long>.
8. Maron, B.J. Haas, T.S. Ahluwalia, A. and Rutten-Ramos, S.C. (2013). *Incidence of cardiovascular sudden deaths in Minnesota high school athletes*. Heart Rhythm. (gwefan) <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/24583295/>.
9. UK NSC. (2019). *Screening for cardiac conditions associated with sudden cardiac death in the young*. (pdf) <https://view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/sudden-cardiac-death/>.
10. Ibid.
11. Ibid.
12. UK Government. (2015). *Evidence and recommendations on NHS population screening*. (gwefan) <https://www.gov.uk/guidance/evidence-and-recommendations-nhs-population-screening>.
13. UK NSC. (2019). *Screening for cardiac conditions associated with sudden cardiac death in the young*. (pdf) <https://view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/sudden-cardiac-death/>.
14. Ibid.
15. Ibid.